

Gwerthusiad beirniadol a nodi'r camau addysgu a dysgu nesaf sy'n canolbwyntio ar astudiaeth achos dysgwr unigol neu grŵp o ddysgwyr, sy'n seiliedig ar ddiwyddiad beirniadol a arsylwyd.

Cyflwyniad

Bwriad yr aseiniad yma yw i drafod a dadansoddi achos critigol a wnaeth cymryd lle o fewn Ysgol Gynradd yn Ne Orllewin Cymru. Tra yn yr ysgol ar ddiwrnodau pontio ar y 26/09/2019, fe wnes i arsylwi ar wers mathemateg blwyddyn 2. Mae'r aseiniad yma wedi cael ei rhannu mewn i wahanol adrannau. O fewn yr adran gyntaf sef yr arsylwi, fe fydd yr ysgol yn cael ei drafod ond heb ei enwi er mwyn sicrhau fod yr aseiniad yma'n foesegol, ac fe fydd bach o gefndir yr ysgol yn cael ei rhoi, er mwyn i'r darllenwr cael gwybod unrhyw wybodaeth sy'n berthnasol amdano'r ysgol. Nesaf fe fydd yr adran methodoleg ac o fewn yr ardal yma fe fydd y model o arsylwi yn cael ei gyflwyno a beth yn union oedd y broses o fynd ati i arsylwi o fewn y dosbarth. Yn dilyn y fethodoleg fe fydd yr adran Pedwar Diben, ac fe fydd yna gysylltiad efo Pedwar Diben Yr Athro Donaldson er mwyn fod yn gritigol. Ar ôl hyn mae'r adolygiad o lenyddiaeth a fydd yn ffocysu ar ddwy brif thema sef Gwahaniaethu o fewn yr ystafell ddosbarth ac Ymddygiadaeth. Yn dilyn hyn, fe fydd yr adran adfyfrio a gwerthuso camau nesaf. I orffen, fe fydd y casgliad. Fe fydd yr adran atodiadau ar ddiwedd yr aseiniad ac fe fydd y taflenni arsylwi a'r taflenni BWA a ddefnyddiwyd wrth arsylwi.

Arsylwi

Trwy ysgrifennu'r aseiniad yma, mi fydd rhaid parchu a llawn ystyri'r polisiau moesegol sydd ynghlwm a gwneud arsylwad fel yr un sydd yn cael ei drafod yn yr aseiniad yma, felly mi fydd enw'r disgybl a'r athrawes sydd yn cael ei thrafod yn yr aseiniad yma yn gyfrinachol ynghyd â enw yr ysgol. Mi fydd y plentyn yn cael ei alw'n 'plentyn A' a'r athrawes yn cael ei alw'n 'athrawes A'. Hefyd, cyn fynd ati i arsylwi'r wers, trafodais efo pennaeth yr ysgol ac cefais ganiatâd i dynnu lluniau o'r waith roedd y plant yn gwneud o fewn y dosbarth.

Mae'n bwysig pan yn sôn am foeseg, i edrych ar ganllawiau BERA. Drwy edrych ar ganllawiau BERA, mae'n amlwg faint mor bwysig yw fod yn gyfrinachol tra'n casglu gwybodaeth. "The confidential and anonymous treatment of participants' data is considered the norm for the conduct of research" ac yna yn mynd ymlaen i bwysleisio "researchers should recognise the entitlement of both institutions and individual participants to privacy, and should accord them their rights to confidentiality and anonymity." (Bera.ac.uk, 2018)

Wrth edrych ar yr adroddiad diweddaraf a wnaeth ei gynnal gan ESTYN yn 2017, mae yna 582 o ddisgyblion yn yr ysgol rhwng yr oedran o dri ac un ar ddeg, gan gynnwys 115 o ddisgyblion y meithrin. Cafwyd y 582 o ddisgyblion ei rhannu rhwng 20 gwahanol ddosbarth, gan gynnwys tri dosbarth o oedran cymysg. O ran prydai bwyd am ddim, mae 7% o ddisgyblion yr ysgol yn gymwys ar gyfer hyn, sydd yn swm is na'r cyfartaledd cenedlaethol sef 19%. Mae'r ysgol wedi adnabod bod gan 13% o'r disgyblion ADY (Anghenion Dysgu Ychwanedig) sydd eto yn swm is na'r cyfartaledd cenedlaethol sef 25%. (Estyn.gov.wales, 2017).

Methedoleg

Fe fydd y fethodoleg a ddefnyddiwyd ar gyfer arsylwi'r dosbarthiadau yn cael ei chyflwyno mewn manylder yn adran yma'r aseiniad. Mae'r ymchwil ar gyfer yr aseiniad yma wedi cael ei gynnal drwy arsylwi gwersi o fewn yr ysgol. Mae defnyddio'r dull systematig yma o gasglu data yn ddull sydd yn effeithiol, ond mae yna anfanteision drwy ddefnyddio arsylwi. Mae unigolion yn y dosbarth yn gallu newid y ffordd y maen nhw'n ymddwyn oherwydd y ffaith mae yna bobl yn y dosbarth sy'n eu harsylwi. Mae'r newidiad hyn yn gallu fod o ran ymddygiad neu hyd yn oed cynhyrchedd unigolion yn y dosbarth. Yr enw ar gyfer hyn yw'r 'Effaith Hawthorne'. O fewn ymchwil, mae'r effaith ar ymddygiad unigolyn oherwydd y ffaith maent yn cael ei arsylwi yn bodoli. (McCambridge. J et al, 2014).


Fe wnaeth yr arsylwad yma gymryd lle mewn ffordd di-gyfranol, lle roeddwn i fel arsylwr ddim yn rhan o'r wers ac yn eistedd yng nghefn ac ar ochr y dosbarth i sicrhau fy mod yn gallu gweld pob peth a wnaeth mynd ymlaen drwy gydol y wers ac nid oedd unrhyw ran bwysig yn cael ei golli. Hefyd, mae defnyddio arsylwadau di-gyfranol yn helpu i gael casgliadau sydd yn fanwl gywir amdano'r achos critigol sydd yn cael ei drafod.

Mae'r aseiniad yma yn edrych yn benodol ar achos critigol, felly mae'n bwysig i ddiffinio beth yn union yw achos critigol. *"Critical incidents and critical events are particular events or occurrences that typify or illuminate very starkly a particular feature"* (Cohen et al, 2013, p.551). Yn dilyn hyn, mae (Tripp, 1993, p.25) yn dweud *"incidents tend to be 'typical' rather than 'critical' at first sight, but are rendered critical through analysis."* Hefyd, trwy edrych ar yr achos critigol yma, mae'n werth ystyried natur yr achos i weld os mae'n gallu ymestyn o achos critigol i achos mwy difrifol ac astudiaeth achos. Petai hyn yn ymestyn i fod yn astudiaeth achos, fyddai fwy o waith ymchwil yn cael eu gwneud er mwyn cael fwy o ganlyniadau am y gwaith a ymchwiliwyd.

Gan nid oes yna lawer o amser i'r ymchwilydd i gasglu'r gwaith ymchwil, un dull o gasglu data fydd yn cael ei ddefnyddio. Y dull a ddewiswyd yn amlwg yw arsylwi ar wersi. Nid oes yna bwynt o ddewis nifer o ddulliau o gasglu data pan nid oes yna amser i ddefnyddio'r dulliau yma a hefyd mae'r ymchwilydd ar ben ei hun. Ar yr un pryd dylid nodi pa mor ddibynadwy a dilys mae'r ymchwil yn mynd i fod drwy ddefnyddio'r dull o arsylwi. (Bell. J, 2010). Yn yr un modd, rhaid nodi'r ffaith bod rhagfarn yn gallu digwydd drwy arsylwi, felly rhaid sicrhau nid yw hyn yn digwydd. (Kumar. R, 2014)

Digwyddiad beirniadol yn gysylltiedig â Phedwar Diben Donaldson

Yn yr adran yma, fe fydd yr achos critigol a arsylwyd yn y dosbarth yn cael ei drafod yn fanwl ac yna fe fydd yr achos critigol yn cael ei chysylltu efo dibenion cwricwlwm yr Athro Donaldson. Mae'r athro Donaldson (2015) yn nodi fod yna pedwar pwrpas i'r cwricwlwm newydd ac yn dweud dyled plant Cymru fod yn datblygu fel y pedwar diben a nodir yn ffigur 1 sydd isod.



(Figure 1, Gwegogledd.cymru, 2015)

Cyn mynd ati i arsylwi gwers blwyddyn 2 mathemateg, dywedodd yr athrawes wrtho mi i edrych yn ofalus ar sut mae plentyn A yn ymddwyn ag ymateb yn wahanol i weddill y dosbarth. O fewn yr amgylchedd dosbarth, arsylwyd disgybl oedd yn eistedd yn gwbl ar wahân i weddill y dosbarth, ar orsaf waith ei hun. Roedd y disgybl yma yn chwarae efo 'Lego' ar ei fwrdd ac roedd yna 'amserydd wyau' ar y silff ar bwys plentyn A. Roedd yr

athrawes yn defnyddio'r amserydd er mwyn amseru'r cyfanswm o amser y mae plentyn A yn gorfod gweithio amdan yn y dosbarth. 10 munud ar y foment yw'r cyfanswm o amser ac mae athrawes X yn cynyddu'r amser pob mis er mwyn ceisio gwella sgiliau canolbwyntio plentyn A.

Tra'n arsylwi'r wers yma fe ofynnais i athrawes X os mae rhieni plentyn A yn ymwybodol o'r sefyllfa yn y dosbarth. Fe ddywedodd athrawes X nid oedd y rhieni yn ymwybodol o ba mor ddifrifol mae sefyllfa plentyn A. Pan wnaeth athrawes X awgrymi i rieni plentyn A am ystyried mynd a phlentyn A i weld y seicolegydd addysg er mwyn i'r seicolegydd addysg gallu darganfod faint o gymorth sydd angen ar blentyn A.

Roedd yna 29 o ddisgyblion o fewn y dosbarth ac roedd 23 yn ferched a 6 bechgyn. Cafwyd y dosbarth eu rhannu mewn i 5 grŵp o ran gallu. Roedd yna un dasg ffocws efo athrawes X, un dasg ffocws efo'r cynorthwydd dosbarth, un dasg annibynnol ac roedd y ddau grŵp arall yn cael mynd i weithio o fewn yr adrannau gwahanol. Cafwyd plentyn A dasg ar ben ei hun i'w gwblhau cyn cael y dewis o fynd i chwarae efo Lego neu fynd at un o'r ardaloedd efo rhai o blant y dosbarth.

Yn dilyn hyn, mae'r pwyntiau nesaf yn mynd i gyfeirio at y diben canlynol y bod Donaldson eisiau plant o Gymru I fod yn blant sydd yn unigolion sy'n "gyfranwyr mentrus a chreadigol". Drwy arsylwi plentyn A, mae'n amlwg nid yw'n gallu gwneud yr un gwaith a gweddill y dosbarth ac o achos hyn nid yw'n cyfrannu tuag at y wers o gwbl. Serch hynny, pan gaeth y disgybl y dewis o fynd i chwarae o fewn y cosfeydd gwaith a oedd ym mlwyddyn 2, fe wnaeth ef ddangos ei bod yn gallu cyd-fynd a gweddill y dosbarth drwy fod yn "unigolyn

sydd yn iach a mentrus". Arsylwyd y plentyn yn chwarae ag yn rhannu adnoddau efo ei gyd ddisgyblion heb unrhyw drafferth ac mae'r gallu i weithio o fewn tîm yn allweddol ar gyfer addysg ac ar gyfer ei yrfa ar ôl orffen o fewn y byd addysg sy'n cael ei drafod ar dudalen 29 o ddogfen Yr Athro Donaldson sef "Dyfodol Llwyddiannus".

Adolygiad o Lenyddiaeth

Mi fydd yr adolygiad o lenyddiaeth yn cael ei gyflwyno yn ardal yma'r aseiniad, er mwyn canolbwyntio ar y llenyddiaeth sydd yn barod yn bodoli ar y prif bwyntiau o'r achos critigol a ddewiswyd ar gyfer yr aseiniad yma. O fewn yr adolygiad o lenyddiaeth yma, bydd yna gwahanol themâu yn cael ei drafod sy'n gysylltiedig â'r achos critigol a dewiswyd o fewn y dosbarth ar y diwrnodau pontio. Y themâu sy'n mynd i gael eu trafod yw gwahaniaethu disgyblion o fewn y dosbarth oherwydd y ffordd wnaeth athrawes X rheoli plentyn A tra ein bod ni'n arsylwi. Thema arall fydd yn cael ei ystyried yw pwysigrwydd ddulliau o reoli plant efo problemau ymddygiad o fewn y dosbarth, a'r wahanol lenyddiaeth sy'n bodoli yn barod ar y pwnc yma.

Pwysigrwydd gwahaniaethu plant o fewn y dosbarth

Mae gwahaniaethu disgyblion o fewn y dosbarth yn cael ei ddefnyddio'n gyffredin gan athrawon yn ysgolion cynradd. Defnyddiwyd gwahaniaethu am ddisgyblion sy'n fwy abl a thalentog (MAT) ac hefyd sydd a anghenion dysgu ychwanedig (ADY). Dywed (Cooper, C. 1998) bod gwahaniaethu yn golygu gwaith sy'n wahanol ac nid fwy o waith i ddisgyblion.

Mae yna astudiaeth gan (Latz, A.O et al, 2008) sydd yn pwysleisio pa mor bwysig mae gwahaniaethu yn yr ystafell ddosbarth ond mae angen nifer fawr o ffactorau mae'n rhaid cael yn lle cyn i'r gwahaniaethu cymryd lle. Mae'r awdur yn pwysleisio fod y broses o wahaniaethu plant yn cymryd amser hir i wneud, ond yn y tymor hir yn arbed amser i'r athro gan ei bod nhw'n gallu rhoi tasgau gwahanol i wahanol ddisgyblion, megis tasgau darllen a gwaith grŵp. Mae (Hertberg-Davis, H.L, 2006) yn nodi'r ffaith bod cael cefnogaeth o'r uwch dîm rheoli yn allweddol ar gyfer gweithredu gwahaniaethu effeithiol o fewn y dosbarth. Er mwyn gwahaniaethu o fewn yr ystafell ddosbarth, mae angen i athrawon esblygu tra bod

myfyrwyr yn esblygu, mae (EURSERY, K, 2016) yn pwysleisio. Mae'r profiad o ddysgu o fewn un dosbarth yn gallu fod yn gwbl wahanol i ddosbarth arall. Mae gwybod lle a sut i addasu gwersi a phrofiadau i blant yn cymryd hyblygrwydd ac amser i ddod i adnabod eich dosbarth fel athrawon.

Dywed yr awdur (Latz, A.O et al, 2008) bod agwedd y rhieni tuag at athrawon yn gwahaniaethu yn gallu bod yn bryder i athrawon, gan bod nifer o rieni ddim yn hoffi'r ffaith bod eu plentyn nhw yn cael eu trin mewn ffordd wahanol i blentyn arall yn y dosbarth. Anghytunaf (Knopper, D. and Fertig, C. 2005) efo'r pwynt yma gan ddweud bod gwell gan rieni pan mae eu plant o fewn dosbarthiadau lle mae'r disgyblion wedi cael eu gwahaniaethu, oherwydd y ffaith y gall gwahaniaethu helpu i gael y gorau allan o'r plentyn drwy addasu gwaith ar gyfer anghenion unigol pob plentyn.

Mae (Van Vught. F, 2007) yn cytuno bod gwahaniaethu o fewn addysg yn bwysig iawn. Dywed yr awdur *"each student has the opportunity to find an educational environment in which chances for success are realistic."* Mae hyn yn pwysleisio pwysigrwydd gwahaniaethu er mwyn i bob disgybl gael y cyfle i lwyddo ac i gyflawni ei wir botensial o fewn yr ystafell ddosbarth ac o fewn weithgareddau allgyrsiol.

Yn ogystal â hyn, mae'r awdur (Bearne. E, 2006) yn dweud er mwyn i athrawon cael gwahaniaethu mewn ffordd sydd yn effeithiol, mae'n allweddol fod y cwricwlwm yn cael ei dylunio mewn modd sydd yn galluogi gwahaniaethu effeithiol. Mae'r awdur yn diffinio gwahaniaethu drwy ddweud mai'r ffordd mae athrawon yn dylunio a chynllunio gwaith ar gyfer disgyblion sydd efo gwahaniaethau yn eu gwaith ac yn eu gallu, yw'r wir ddiffiniad o beth yw gwahaniaethu.

Rheoli Ymddygiad o fewn yr ystafell ddosbarth.

Drwy edrych ar wahanol lenyddiaeth sydd yn barod yn bodoli, mae'n amlwg bod bron pob athro yn mynd i brofi ymddygiad heriol gan eu myfyrwyr. Mae'r ffordd wnaeth athrawes X ddelio efo sefyllfa plentyn A wedi fy niddori ac oherwydd hyn mi fydd yr adran yma o'r adolygiad o lenyddiaeth yn ffocysu ar ddelio efo ymddygiad heriol o fewn yr ystafell ddosbarth.

Cyn fynd ati i edrych at reoli ymddygiad, mae'n bwysig i wybod rhai o'r rhesymau fod disgyblion yn camymddwyn yn y dosbarth. Ni ellir anwybyddu'r ffaith fod ymddygiad gwael yn rhywbeth sydd yn digwydd yn aml o fewn yr ystafell ddosbarth a rhaid derbyn mae hyn yn mynd i fod yn broblem o bob athro yn ystod eu gyrfa. Mae (Hollin. C, 1993) yn egluro bod yna nifer o resymau mae disgyblion yn camymddwyn o fewn yr ystafell ddosbarth ac un o'r prif resymau am ymddygiad annerbyniol yw'r dysgu sydd yn digwydd o fewn y cartref efo'r disgybl. Pwysleisia'r awdur fod y tasgau mae disgybl y neu wneud o fewn yr ysgol yn llai naturiol i'r disgybl, mae'n debygol. Mae'r tasgau maent y neu wneud yn yr ysgol yn adeiladau ar ymwybyddiaeth sydd yn bodoli yn barod, felly os nad yw'r disgybl yn cael y cymorth o gartref, mae'n gallu fod yn rhwystredig iddynt sydd yn achosi ymddygiad heriol. Yn ogystal â hyn, mae'r disgyblion yn colli diddordeb yn y wers sydd yn cyflwyno problemau i'r athro. I gloi, mae'r awdur yn dweud nid yw plant drwy'r amser yn methu o fewn y byd addysg oherwydd gallu ond oherwydd nid ydynt wedi cael eu paratoi efo'r sgiliau sydd yn angenrheidiol i lwyddo o fewn addysg.

Drwy edrych ar wahanol lenyddiaeth, mae'n amlwg fod y strategaethau o reoli ymddygiad heriol yn wahanol i bawb. Credi'r yn aml mae dull 'cadarn' o reoli ymddygiad yw'r dull gorau ond mae ymchwil yn dangos bod rhoi enwau plant ar y bwrdd, lleihau amser chwarae a chadw disgyblion i mewn yn adeiladu rhwystredigaeth ac yn adio i'r broblem. (Sullivan. A,


2016). Mae'r awdur (Taylor. I et al, 1996) yn dweud bod angen help ar athrawon efo disgyblion efo problemau ymddygiad. Dywed yr awdur mae cynllun rheoli ymddygiad yn gallu helpu efo rheoli ymddygiad ac yna mae'r athro yn gallu gweithredu'r cynllun ac mae cael cynllun yn lleihau'r siawns o ymddygiad heriol o fewn y dosbarth.

Drwy edrych ar lenyddiaeth sy'n bodoli yn barod ac edrych ar ddwy brif thema, sef gwahaniaethu o fewn y dosbarth a rheoli ymddygiad heriol, mae yna nifer o brif negeseuon sy'n amlwg. Ynghlyn a gwahaniaethu, mae'n ddull sy'n cael eu defnyddio llawer o fewn ysgolion. Gwelaf yn yr ysgol ar PAP1 fod gwahaniaethu yn digwydd ac mae'r llenyddiaeth sydd yn bodoli yn cadarnhau'r hyn yr wyf wedi ei gweld. Wrth sôn am reoli ymddygiad heriol, mae hyn yn fwy o dreialu er mwyn gweld beth sydd yn gweithio o fewn y dosbarth penodol. Mae rhai yn dweud mai angen fod yn gadarn efo plant ond mae ymchwil i ddweud nid yw'r dull yma yn gweithio.

Adfyfyrio a Gwerthuso camau nesaf

Mae adran yma'r aseiniad yn mynd i fod yn adlewyrchiad o fy meddyliau ar yr achos critigol fe wnes i ei weld o fewn yr ysgol. Hefyd, fe fydd y camau nesaf yn cael ei adnabod ac yn cael ei drafod er mwyn gweld ag ystyried sut gallwn i fel athro ystyried gwneud ambell beth yn wahanol i'r hyn wnaeth athrawes X. Ni fydd adnabod unrhyw gamau gwahanol yn beirniadu'r hyn fe wnes i ei weld yn ystod yr achos critigol, na'r ysgol mewn unrhyw ffordd er mwyn mwyn fod yn foesegol.

Er mwyn gwneud yr adran yma, fy fydd fframwaith adfyfyrio yn cael ei ddefnyddio sef fframwaith adfyfyrio dyluniwyd gan Gibbs (1988). 'Gibbs's reflective cycle is a theoretical framework comprised of six stages and can be used during structured debriefing to guide reflection' (Husebø, S.E et al, 2015). Mae ffigwr 2 yn dangos y fframwaith yn glir.



(Figure 2, Gibbs. G, 1988, Oxford Brookes University)

Disgrifiad

Roedd rhaid i mi gasglu ymchwil drwy arsylwi ar wersi blwyddyn 1 a 2 o fewn ysgol gynradd er mwyn ddod o hyd i achos critigol yn yr ystafell ddosbarth. Fe wnes i arsylwi gwers blwyddyn 2 a oedd yn wers mathemateg ac roedd un disgybl, sef plentyn A, wedi tynnu fy sylw yn syth ar ôl cerdded i mewn i'r ystafell ddosbarth. Roedd gan blentyn A desg ar ben ei hun ac nid oedd y disgybl yma yn gwneud yr un gwaith a gweddill y dosbarth. Chwaraeodd plentyn A efo Lego cyn mynd ati i ddewis pa weithgaredd i fynd ati i wneud ar ôl 10 munud o weithio. Ar ddesg plentyn A, roedd yna amserydd wy roedd yn amseru 10 munud ac am y 10 munud yma roedd rhaid i blentyn A gweithio cyn mynd ati i ddewis gweithgaredd.

Teimladau

Cyn fynd ati i arsylwi ar y wers yma, roeddwn i'n awyddus i weld pa fath o wers roeddwn i'n mynd i weld. Roedden i'n awyddus i weld ba fath o ddulliau asesu ar gyfer dysgu oedd yn mynd i gael eu defnyddio o fewn y wers.

Gwerthusiad

Teimlais fel bod yna nifer o bethau da amdano'r profiad cefais i drwy arsylwi. Cyn mynd i mewn i'r wers yma, nid oedd gennyf fi lawer o brofiad o beth yn union yw achos critigol heblaw am y darlithoedd cefais i yn y brifysgol, felly mae cael yr amser arsylwi yma wedi datblygu fy ngwybodaeth ar y pwnc. Credaf fod y profiad o weld y pedair gwers yn mynd i fod yn fuddiol i mi yn ystod fy ngyrfa fel athro.

Petai yna cyfle i mi arsylwi eto, hoffwn i gael y cyfle i arsylwi'r dosbarth yma a'r plentyn am y dydd yn lle dim ond am un wers, er mwyn cael fwy o fewnwelediad i'r plentyn yma a sut mae'r athrawes yn ei rheoli'n ddyddiol. Hefyd, bydde'r cyfle i drafod a cael sgwrs efo'r

plentyn wedi helpu fy nealltwriaeth o'i sefyllfa ond ni cefais y cyfle yma achos roeddwn i'n arsylwi mewn ffordd di-gyfranol.

Dadansoddi

Drwy edrych yn ôl ar ba synnwyr yr wyf yn gallu ei gymryd o'r sefyllfa, mae'n amlwg bod yr athrawes yma yn gwybod yn union am sut i reoli plentyn A fel nid yw'n cael y cyfle i darfu ar wersi. Hefyd wrth ddadansoddi'r sefyllfa, mae'n bwysig i unrhyw athro a fydd yn addysgu plentyn A yn y dyfodol i gael y wybodaeth yn flaenorol ar sut mae'r plentyn yma yn ymateb ac yn ymddwyn.

Casgliad

Ynghlyn a'r pethau arall gallwn i fel ymchwilydd wedi ei gwneud, byddwn i wedi hoffi'r cyfle i gael trafodaeth efo plentyn A er mwyn gweld sut roedd y plentyn yn mynd i ymateb. Ar y cyfan ac efo'r amser prin cefais i yn y dosbarth yma, yr wyf yn wirioneddol hapus ar hyn wnes i ei weld.

Cynllun Gweithredu

Gan edrych yn ôl ar y gwaith ymchwil fe wnes i ei gyflawni o fewn yr ysgol, mae'n bwysig edrych ar unrhyw rannau bydden i fel ymchwilydd yn ei gwneud yn wahanol, petai'r cyfle yn bosib eto. Fel dywedais i o blaen, bydden i wedi cymryd y cyfle i drafod a gwneud gwaith efo plentyn A ac yna gwyllo'r plentyn am fwy o amser er mwyn cael gwell ymwybyddiaeth o'r sefyllfa.

Camau nesaf

Drwy arsylwi ar y wers flwyddyn 2 mathemateg yma, roeddwn i'n hynod o falch o gael y profiad o weld sut roedd athrawes X wedi rheoli plentyn A ac yn sicr fy mod yn gallu defnyddio fy mhrofiad ar gyfer fy ngyrfa o fewn y byd addysg. Un peth fydden i fel athro yn ystyried gwneud yn wahanol yw defnyddio Lego efo helpu plentyn A efo'i siapiau, gan fod y wers ar siapiau 2D a 3D. Y byddwn i fel athro wedi gofyn i blentyn A i greu siapau allan o

Lego megis triongl a sgwâr. Credaf bydde gwneud hyn yn datblygu'r sgil o adnabod siapau efo plentyn A. Drwy gael y plentyn i ddatblygu ei sgiliau fe fydd hyn yn helpu'r plentyn i fwrw pedwar diben y cwricwlwm Yr Athro Donaldson ac o ganlyniad i hyn bydd y plentyn yn gallu bod yn fwy parod am ei bywyd o fewn a thu allan i'r ysgol.

Casgliad

Yn amlwg trwy gydol yr aseiniad yma, mae achos critigol o fewn ysgol wedi cael ei drafod mewn manylder ar ôl arsylwi ar wers flwyddyn 2. Mae'n bwysig sylweddoli taw dim ond ciplun sydd wedi'i weld drwy arsylwi ar wers o fewn yr ysgol, felly mae yna ragdybiaethau wedi cael eu gwneud o fewn yr ymchwil a hefyd drwy ddadansoddi'r hyn sydd wedi cael ei darganfod. Er hyn, yr wyf yn sicr fydd yr ymchwil yma wedi bod yn gwbl fuddiol i mi gan fod yr ymchwil wedi ehangu a chreu diddordeb newydd yn y ffordd byddaf yn addysgu tuag at ddysgu. Hefyd, roedd arsylwi ar y wers yma a phlentyn A yn benodol yn brofiad gwych i mi ac yr wyf yn sicr y gall y profiad yma helpu mi fel athro yn y dyfodol.

Mae'r broses yma o arsylwi wedi dysgu i mi pa mor bwysig mae gwahaniaethu o fewn gwersi i sicrhau fod pob disgybl yn y dosbarth yn cael ei herio ac yn dysgu sgiliau newydd o fewn y dosbarth. Gwelaf drwy arsylwi'r gwersi yn ein hamser o fewn yr ysgol sut mae'r athrawon yn cysylltu eu gwersi efo pedwar diben y cwricwlwm a hefyd pa mor bwysig yw cael gwybodaeth am unigolion y dosbarth er mwyn creu cynllun gwर्स sydd yn addas, i osgoi unrhyw ymddygiad annerbyniol o fewn y wers a hefyd yn sicrhau fod y disgybl yn gallu datblygu fel unigolyn. Hefyd, yr wyf wedi gweld pwysigrwydd o reoli ymddygiad er mwyn sicrhau bod yna tasgau a gweithgareddau i'r disgyblion ei gwblhau drwy'r amser. Mae cael yr ymwybyddiaeth o ddisgybl yn gallu effeithio'r ffordd mae athro yn paratoi ei gwर्स a hefyd cael cynllun i un disgybl yn benodol. Mae hyn yn gyd fynd efo Safonau Proffesiynol Llywodraeth Cymru ac yn gyd fynd efo pedegogaeth effeithion sy'n golygu mae athrawon drwy'r amser yn ceisio cael y gorau am eu disgyblion drwy ddysgu mewn ffordd effeithiol a'r dulliau o addysgu gorau. (Hwb.gov.wales, 2018)

Er hynny, petai'r cyfle i wneud y broses yma unwaith eto, bydden i'n gwerthfawrogi'r cyfle i dreulio fwy o amser efo'r disgybl yma i weld sut mae ei ymddygiad yn newid o ddydd i ddydd a hefyd i weld y datblygiad mae'r disgybl yn ei wneud.

Cyfeiriadau

1. Bearne, E., 2006. *Differentiation and diversity in the primary school*. Routledge.
2. Bell, J., 2010. *Doing your research project* 5th ed., Maidenhead: Open University Press.
3. Bera.ac.uk. (2018). *Ethical Guidelines for Educational Research, fourth edition (2018)*. [online] Available at: <https://www.bera.ac.uk/publication/ethical-guidelines-for-educational-research-2018-online#guideline20> [Accessed 28 Oct. 2019].
4. Cohen, L., Manion, L., & Morrison, K. (2013). *Research Methods in Education*. London: Routledge.
5. Cooper, C. 1998. For the good of humankind: Matching the budding talent with a curriculum of conscience. *Gifted Child Quarterly*, 42: 238–244.
6. Estyn.gov.wales. (2017). [online] Available at: <https://www.estyn.gov.wales/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/> [Accessed 28 Oct. 2019].
7. EURSERY, K., 2016. Differentiation: Closing the Gap between Frustration and Success. *AMLE Magazine*, 4(3), pp. 24-26.
8. Gwegogledd.cymru. (2015). [online] Available at: <https://www.gwegogledd.cymru/wp-content/uploads/2018/02/Diweddariad-ar-Gwricwlwm-i-Gymru.pdf> [Accessed 23 Oct. 2019].
9. Hertberg-Davis, H.L. and Brighton, C.M., 2006. Support and sabotage principals' influence on middle school teachers' responses to differentiation. *Journal of Secondary Gifted Education*, 17(2), pp.90-102.
10. Hollin, C., 1993. Social reasons for bad behaviour. 1993) *Management of Behaviour in Schools*, pp.66-88.
11. Husebø, S.E., O'Regan, S. and Nestel, D., 2015. Reflective practice and its role in simulation. *Clinical Simulation in Nursing*, 11(8), pp.368-375.

12. Hwb.gov.wales. (2018). *Professional standards - Hwb*. [online] Available at: <https://hwb.gov.wales/professional-development/professional-standards> [Accessed 27 Oct. 2019].
13. Knopper, D. and Fertig, C. 2005. Differentiation for gifted children: It's all about trust. *The Illinois Association for Gifted Children Journal*, 6(1): 6–8.
14. Kumar, R., 2014. *Research methodology : a step-by-step guide for beginners* Fourth., Los Angeles: SAGE.
15. Latz, A.O., Speirs Neumeister, K.L., Adams, C.M. and Pierce, R.L., 2008. Peer coaching to improve classroom differentiation: Perspectives from Project CLUE. *Roeper Review*, 31(1), pp.27-39.
16. McCambridge, J., Witton, J. and Elbourne, D.R., 2014. Systematic review of the Hawthorne effect: new concepts are needed to study research participation effects. *Journal of clinical epidemiology*, 67(3), pp.267-277.
17. Sullivan, A., 2016. Schools' tough approach to bad behaviour isn't working—And may escalate problems. *The Conversation*, 26.
18. Taylor, I., O'Reilly, M. and Lancioni, G., 1996. An evaluation of an ongoing consultation model to train teachers to treat challenging behaviour. *International Journal of Disability, Development and Education*, 43(3), pp.203-218.
19. Tripp, D. (2012) *Critical Incidents in Teaching: Developing Professional Judgement*. London: Routledge.
20. University, O. (n.d.). *Reflective writing: About Gibbs reflective cycle - Oxford Brookes University*. [online] Brookes.ac.uk. Available at: <https://www.brookes.ac.uk/students/upgrade/study-skills/reflective-writing-gibbs/> [Accessed 28 Oct. 2019].
21. Van Vught, F., 2007, November. Diversity and differentiation in higher education systems. In *CHET anniversary conference* (Vol. 16).

Atodiadau

Dyma'r taflenni arsylwi a'r taflen BWA o'r wers cymysg blwyddyn 1 a 2 ar y 02/10/19.



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Addysg a'r Dyniaethau
Education and Humanities

NODIADAU ARSYLWI / MAES

(Cwestiynau wedi eu haddasu o Fletcher Wood (2016))

Dyddiad:	02/10/19
Manylion y wers:	Mathemateg - Siapau BL1 a 2 10.45-12
Diwylliant ar lawr dosbarth (Ydy'r dysgwyr yn canolbwyntio ar ddysgu?)	Ydyn, pawb yn cael ei herio. Siart ymddygiad.
Amcanion (Oes pwrpas clir i'r wers? Sut mae gweithgareddau'r wers yn hyrwyddo'r pwrpas hwnnw?)	Siapau 2D a 3D. Plant yn enwi siapau. Torri a gludo siapau yn y bocs cywir. Plant yn creu siapau allan o 'build your own den'. A ffin lolipop. Creu siapau allan o 'battleships'. Ac yna enwi nhw.
Cyfarwyddyd (Ydy'r dysgwyr yn glir am beth maen nhw'n ei wneud a sut i'w wneud yn dda?)	Gwahanol ardaloeddel gwaith. Cownteri. Ipad's - Sgiliau digidol.
Mynediad a her (Ydy pob myfyriwr yn gallu dilyn y wers? A gaiff pob myfyriwr ei herio?)	Gwahanol grwpiau o rhan gallu. Rhai yn annibynnol, rhai yn gweithio'n gyda'r athrawes. Plant yn cael hêr e.e creu pyramid ac yna yn gorfod creu'r siâp.



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Addysg a'r Dyniaethau
Education and Humanities

Asesu

Sut mae'r athro yn asesu dealltwriaeth dysgwyr cyn, yn ystod ac ar ôl y wers? Sut y defnyddir hyn wrth addysgu?

Siart
Ffin Lolipop

Codau: A = Annibynnol
YH = Ychydig help
H = Help

Ac yna cyfeirio at amcan dysgu.

Manylebau / Achosion Beirniadol

Oes adegau ac enghreifftiau trawiadol y byddai'n ddefnyddiol eu trafod?

Ffin lolipop.
Tric a chlic.

Plant yn mynd i'r tŷ bach.

Achos

Sut mae'r athro yn cadw sylw
y plant.


Model Beirniad Wedi Adfyfyrio (BWA) Assisted Reflective Conclusions (ARC) Model

Dyddiad/Date: 02/10/19

Digwyddiad critigol (Ffocws)/Critical incident (focus): Cadw diddordeb y plant

Profiad/ Experience	
Teimladau/ Feelings Beth yw eich teimladau ynghylch y profiad? "What are your feelings regarding the experience?"	Rwy'n hapus efo sut wnaeth y plant ymateb i wers yr athro. Credaf fodaf y nifer o wahanol gorsaf wedi cadw diddordeb y plant. Roedd yn amlwg fod y plant wedi mwynhau'r wers.
Cofio a Deall/ Remember and Understand "Allwch chi restru elfennau'r achos yng nghyd-destun y dysgu?" "Can you list the aspects of the incident in the context of learning?"	- Plant yn gwybod beth oedd y meini prawf llwyddiant ar gyfer y wers maths a siapau.
Gwerthuso a dadansoddi/ Evaluate and analyse "Beth y gellid ei gadw yr un fath i sicrhau addysgu a dysgu effeithiol yn y dyfodol?" "What could be kept the same to ensure effective teaching and learning in the future?"	- Plant yn cael gwybod cyn fynd ati i wneud y dasg beth yn union mae rhaid i nhw i'w wneud er mwyn cyflawni'r dasg
Casgliadau a chamau gweithredu/ Conclusions and actions "Beth yw eich atebion posibl i'r mater a nodwyd?" "Beth y gellid ei wneud nesaf?" "What are your possible solutions to the issue identified?" "What could be done next?"	- Rwyf yn credu aeth y wers yma'n dda iawn ac felly yr hêr yw i gallu creu gwersi fel hyn fy hun.
Y profiad newydd / Transformed experience	

Dyma'r taflenni arsylwi a'r taflen BWA o'r wers cymysg blwyddyn 1 a 2 ar y 02/10/19.



Yr Athroia
Addysg a'r Dyniaethau
Education and Humanities

NODIADAU ARSYLWI / MAES

(Cwestiynau wedi eu haddasu o Fletcher Wood (2016))

Dyddiad: ~~02/10/19~~ 02/10/19
Manylion y wers: B1.1 a 2. 9 - 10.20. Grŵp cymysg. 18 b12 + 11 b12. Darllen a sillafu - Llythrennedd
Diwylliant ar lawr dosbarth (Ydy'r dysgwyr yn canolbwyntio ar ddysgu?) Dysgwyr yn eistedd yn dawel ac yn canolbwyntio ar y carped. Nifer fawr o bethau'n mynd y mlaen i gaelw sylw'r plant.
Amcanion (Oes pwrpas clir i'r wers? Sut mae gweithgareddau'r wers yn hyrwyddo'r pwrpas hwnnw?) Darllen a sillafu. Tric a Chlic, darllen stori, torri allan a gludo. Creu llythrennau gyda chalc. Prif llythrennau. Trefni enwau. Plant yn torri allan ac enwi beth sydd ar y llun.
Cyfarwyddyd (Ydy'r dysgwyr yn glir am beth maen nhw'n ei wneud a sut i'w wneud yn dda?) Yn sicr, gwahanol 'stations' ar gyfer y plant. Grŵpiau yn gwybod sut i wneud y dasg.
Mynediad a her (Ydy pob myfyriwr yn gallu dilyn y wers? A gaiff pob myfyriwr ei herio?) Tywydd - Creu ~~can~~ brawddegau. Gwneud maths allan o'r gofrestr ar gofrestr cinio. Grŵpiau o rhan gallu.* Plant yn cael dewis tasg ar ôl gorffen Ipad's - Sgiliau Digidol. Laptops



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Addysg a'r Dyniaethau
Education and Humanities

Asesu

Sut mae'r athro yn asesu dealltwriaeth dysgwyr cyn, yn ystod ac ar ôl y wers? Sut y defnyddir hyn wrth addysgu?

Siart

Ffin lolipop

Codes A – Annibynnol

YH – Ychydig help

H – Help

Cyfeirio at amcan dysgu.

Manylebau / Achosion Beirniadol

Oes adegau ac enghreifftiau trawiadol y byddai'n ddefnyddiol eu trafod?

Siart ymddygiad.

Tric a chlic.

Ffonio ffrind os nid yw'r plentyn yn gwybod yr ateb.

Helpwr y dydd – helpu pawb.

Achos Critigol

Siart ymddygiad.

Model Beirniad Wedi Adfyfyrio (BWA) Assisted Reflective Conclusions (ARC) Model

Dyddiad/Date: 02/10/19

Digwyddiad critigol (Ffocws)/Critical incident (focus): Siart Ymddygiad

Profiad/ Experience	
Teimladau/ Feelings Beth yw eich teimladau ynghylch y profiad? "What are your feelings regarding the experience?"	Y ffordd wnaeth y plant ymateb i'r siart ymddygiad yn wych. Cael eu wobrwyo am gwaith o safon da
Cofio a Deall/ Remember and Understand "Allwch chi restru elfennau'r achos yng nghyd-destun y dysgu?" "Can you list the aspects of the incident in the context of learning?"	Plant eisiau cael eu wobrwyo felly pawb yn rhan o'r wers ag yn trial eu orau.
Gwerthuso a dadansoddi/ Evaluate and analyse "Beth y gellid ei gadw yr un fath i sicrhau addysgu a dysgu effeithiol yn y dyfodol?" "What could be kept the same to ensure effective teaching and learning in the future?"	Y dull o dddefnyddio'r siart. Gwir i'r plant os ydynt yn gwneud gwaith da maent yn cael eu wobrwyo ac os ydynt yn camfihafio maent yn symud lawr ar y siart.
Casgliadau a chamau gweithredu/ Conclusions and actions "Beth yw eich atebion posibl i'r mater a nodwyd?" "Beth y gellid ei wneud nesaf?" "What are your possible solutions to the issue identified?" "What could be done next?"	Caelw dddefnyddio'r siart. Gelli'r rhoi targedau sy'n fwy personol i blant er mwyn codi'r safon yn fwy.
Y profiad newydd / Transformed experience	

Dyma'r taflenni arsylwi a'r taflen BWA o wers blwyddyn 2 ar y 26/09/19.



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Addysg a'r Dyniaethau
Education and Humanities

NODIADAU ARSYLWI / MAES

(Cwestiynau wedi eu haddasu o Fletcher Wood (2016))

Dyddiad:	26/09/19
Manylion y wers:	B1.2. Maths - siapau 3D. 29 disgybl - 23 bachgen, 6 merch.
Diwylliant ar lawr dosbarth (Ydy'r dysgwyr yn canolbwyntio ar ddysgu?)	Pawb yn rhan o'r wers. Ffin lolipop yn cael ei ddefnyddio.
Amcanion (Oes pwrpas clir i'r wers? Sut mae gweithgareddau'r wers yn hyrwyddo'r pwrpas hwnnw?)	Siapau 3D - Plant yn enwi siapau 3D trwy gweld y siapau a teimlo nhw. Plant yn gorfod darganfu siapau 3D yn y dosbarth.
Cyfarwyddyd (Ydy'r dysgwyr yn glir am beth maen nhw'n ei wneud a sut i'w wneud yn dda?)	Athro yn rhoi cyfarwyddiadau clir i'r plant, ac yn esbonio sut yn union i wneud e'n dda.
Mynediad a her (Ydy pob myfyriwr yn gallu dilyn y wers? A gaiff pob myfyriwr ei herio?)	Athrawes yn rhoi digon o amser er mwyn ateb y cwestiwn. Pob grŵp yn cael cyfle i wneud rhywbeth guahanol.



Aseu

Sut mae'r athro yn asesu dealltwriaeth dysgwyr cyn, yn ystod ac ar ôl y wers? Sut y defnyddir hyn wrth addysgu?

Aseu ar gyfer dysgu
ffin lolipop

Amcanion Dysgu.

Codau cyfnewid sylfaen

A = Annibynnol

YH = Ychydig o help

H = help

A.LL = Adborth Llafar

Manylebau / Achosion Beirniadol


Oes adegau ac enghreifftiau trawiadol y byddai'n ddefnyddiol eu trafod?

Plant wedi trefnu o rhan gallu.

Iaith corff yr ~~plentyn~~ athrawes yn egniol.

Achos

Plentyn ADV yn y dosbarth.



Yr Athrofa
Addysg a'r Dyniaethau
Education and Humanities

Model Beirniad Wedi Adfyfyrion (BWA) Assisted Reflective Conclusions (ARC) Model

Dyddiad/Date: 26/09/19

Digwyddiad critigol (Ffocws)/Critical incident (focus): Rheoli dosbarth

Profiad / Experience	
Teimladau / Feelings Beth yw eich teimladau ynghylch y profiad? "What are your feelings regarding the experience?"	Plentyn yn y dosbarth efo problemau ymddygiad. Plentyn yn meddwl taw dim ond nhw a'r athro sydd yn y dosbarth.
Cofio a Deall / Remember and Understand "Allwch chi restru elfennau'r achos yng nghyd-destun y dysgu?" "Can you list the aspects of the incident in the context of learning?"	Athro yn gorfod rhoi gwaith gwbl wahanol i'r plentyn oherwydd nid yw y plentyn yn gallu gwneud yr un gwaith a'r dosbarth.
Gwerthuso a dadansoddi / Evaluate and analyse "Beth y gellid ei gadw yr un fath i sicrhau addysgu a dysgu effeithiol yn y dyfodol?" "What could be kept the same to ensure effective teaching and learning in the future?"	- Y ffordd mae'r athro yn rheoli'r plentyn yma trwy gydol y wers.
Casgliadau a chamau gweithredu / Conclusions and actions "Beth yw eich atebion posibl i'r mater a nodwyd?" "Beth y gellid ei wneud nesaf?" "What are your possible solutions to the issue identified?" "What could be done next?"	- Er mae'r plentyn yma yn heriol i'r athro, y ffordd wnaeth yr athro rheoli'r plentyn yn wych ac yn cael y plentyn i ymddwyn.
Y profiad newydd / Transformed experience	

Dyma'r taflenni arsylwi a'r taflen BWA o wers blwyddyn 1 ar y 26/09/19.

	Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant University of Wales Trinity Saint David	Yr Athrofa Addysg a'r Dyniaethau Education and Humanities
NODIADAU ARSYLWI / MAES		
(Cwestiynau wedi eu haddasu o Fletcher Wood (2016))		
Dyddiad: 26/09/19		
Manylion y wers: Gwers sillafu / llythrennedd. B14.		
Diwylliant ar lawr dosbarth (Ydy'r dysgwyr yn canolbwyntio ar ddysgu?) Pawb yn eistedd ar y carped. Athro yn hoffi plant sy'n ceisio.		
Amcanion (Oes pwrpas clir i'r wers? Sut mae gweithgareddau'r wers yn hyrwyddo'r pwrpas hwnnw?) Plant yn edrych am llythrennau o amgylch y dosbarth. Creu gair allan o'r llythrennau. Testyn Iaith - iaith cywir. Cywiro iaith. Pwyslais ar sillafu.		
Cyfarwyddyd (Ydy'r dysgwyr yn glir am beth maen nhw'n ei wneud a sut i'w wneud yn dda?) Gorsaf gwahanol ar gyfer pob grŵp. Athro yn egluro'n fanwl beth sydd rhaid gwneud. IPAD's, Cyfrifiaduron, reis.		
Mynediad a her (Ydy pob myfyriwr yn gallu dilyn y wers? A gaiff pob myfyriwr ei herio?) Sgiliau rhifedd, iaith a digidol ar gyfer pob plentyn. AAD: Ffonio ffrind Plant yn tacluso Tric a chlic - Plant yn darllen geiriau cyn cinio.		



Asesu

Sut mae'r athro yn asesu dealltwriaeth dysgwyr cyn, yn ystod ac ar ôl y wers? Sut y defnyddir hyn wrth addysgu?

Asesu faint o help sydd angen arno'r plant.

Grwpiau o ran gallu.

Codau: A = Annibynnol

YH = Ychydig o help

H = Help

Cyfeirio at amcan dysgu.

Manylebau / Achosion Beirniadol

Oes adegau ac enghreifftiau trawiadol y byddai'n ddefnyddiol eu trafod?

Tric a chlic

Ffenio ffrind

Helpwr y dydd

Achos

Plant yn gwastraffu amser.

Model Beirniad Wedi Adfyfyrio (BWA) Assisted Reflective Conclusions (ARC) Model

Dyddiad/Date: 26/09/19

Digwyddiad critigol (Ffocws)/Critical incident (focus): Plant eisiau mynd i'r tŷ bach

Profiad/ Experience	
Teimladau/ Feelings Beth yw eich teimladau ynghylch y profiad? "What are your feelings regarding the experience?"	Plant yn amlwg eisiau gwastraffu amser ac nid ydynt ar dasg.
Cofio a Deall/ Remember and Understand "Allwch chi restru elfennau'r achos yng nghyd-destun y dysgu?" "Can you list the aspects of the incident in the context of learning?"	Plant yn cael tasg ag yna'n mynd i'r tŷ bach. Ddim ar dasg? Dealltwriaeth?
Gwerthuso a dadansoddi/ Evaluate and analyse "Beth y gellid ei gadw yr un fath i sicrhau addysgu a dysgu effeithiol yn y dyfodol?" "What could be kept the same to ensure effective teaching and learning in the future?"	Y ffordd wnaeth yr athrawes rheoli pwy oedd yn mynd i'r tŷ bach.
Casgliadau a chamau gweithredu/ Conclusions and actions "Beth yw eich atebion posibl i'r mater a nodwyd?" "Beth y gellid ei wneud nesaf?" "What are your possible solutions to the issue identified?" "What could be done next?"	Cael siart tŷ bach. Plant yn rhoi enw ar y bwrdd a 2 ar y tro yn mynd.
Y profiad newydd / Transformed experience	